GALLERY 6 ORIEL

08

Esgyn /
Uprisings

Thomas Goddard

18.07 – 08.11.2015

Thomas Goddard

18.07 – 08.11.2015

Esgyn /
Uprisings

Be More Brando
Ac yntau'n adnabyddus am fod yn hynod idiosyncratig ac yn ddi-hid tuag at enwogrwydd, fe wnaeth Marlon Brando, yr actor o Unol Daleithiau America, bwynt o wrthod ei statws fel un o'r enwogion, ond fe fanteisiodd arno i gefnogi'r achosion a oedd yn annwyl ganddo. Gan dorri stereoteipiau ei gyfoedion, tyfodd chwilfrydedd Brando tuag at fywyd a'r byd o'i gwmpas hyd yn oed yn fwy na'i archwaeth chwedlonol am fenywod a bwyd. Yn **Be More Brando**, mae Goddard yn defnyddio ei archif o ddynwarediadau Brando i ddatgelu'r gwir am y ffenomen fyd-eang. Gan amlygu'r actor fel symbol o chwedloniaeth, mae Goddard yn archwilio statws presennol Brando fel duw a gafodd ei gamddehongli a'i gamddeall. Mae **Be More Brando** yn cynnwys ffilm, darn wal, cerflunwaith a thestun, yn ogystal â phrint argraffiad cyfyngedig. Mae'r gwaith newydd hwn yn rhan o waith ymchwil Goddard i natur gwirionedd. Drwy archwilio'r gwahaniaethau rhwng byw a bod, mae ei waith yn ceisio cwestiynu defnyddio grym wrth actio, pa un ai wrth ennill neu drethu. Yn achos Brando, a yw'r awydd i ddynwared yn ymwneud ag ymroi iddo'i hunan, ynteu ddatblygu'n fersiwn arall ohono'i hunan?

Wedi ei eni ym 1980, ac yn gweithio yn Abertawe, mae Thomas Goddard yn mynd ati drwy ei waith i archwilio'r berthynas rhwng lle, cymuned a diwylliant, gan edrych ar y cysylltiad rhwng yr unigolyn a'r gymdeithas, rôl gwybodaeth gamarweiniol drwy'r cyfryngau a'i heffeithiau ar ddiwylliant cyfoes. Cafodd Goddard Wobr Cymru Greadigol ar gyfer 2015/16 a chynrychiolodd Gymru fel rhan o raglen breswyl Standpoint Futures yn Llundain.

Be More Brando
Known for being deeply idiosyncratic and ambivalent toward fame, American actor, Marlon Brando made a point of rejecting his celebrity status, instead exploiting it on behalf of causes he believed in. Breaking the stereotypes of his peers, Brando's curiosity for life and the world around him became even greater than his legendary appetites for women and food. In **Be More Brando**, Goddard uses his archive of compiled Brando impersonations to uncover the truth behind a global phenomenon. Highlighting the actor as a symbol of mythology, Goddard explores Brando's current status as a misinterpreted and misunderstood god. Comprising a film, wall piece, sculpture and text, **Be More Brando** also includes a limited edition print. This new work is part of Goddard's research into the nature of truth. Exploring the differences between inhabiting and being, his work aims to question the use of power within the act, be it one of gaining or in fact draining. In the case of Brando, is the desire to impersonate about indulging in or becoming another self?

Born in 1980, and based in Swansea, Thomas Goddard explores through his work the relationship between place, community and culture, looking at the connection between the individual and society, the role of misinformation through the media and its effects on contemporary culture. Goddard received a Creative Wales Award for 2015/16 and represented Wales as part of Standpoint Futures residency programme, London.

GALLERY · ORIEL 6

Gan/By Alfredo Cramerotti
Cyfarwyddwr/Director,
MOSTYN



Cyfweliad gyda / An interview with Thomas Goddard

Mae'r cyfwelydd yn eistedd ar gadair ledr Eidalaidd ddu gydag ochrau graen pren gwneuthuredig iddi. Mae yna farc ar y llawr parquet lle mae'r gadair ledr drom wedi suddo i'r llawr. Mae cynulleidfa stiwdio yn eistedd yn ddistaw. Mae yna furiau gwyn. Mae yna waith celf. Mae yna gerddor y tu ôl i allweddellau trydan.

Cyfwelydd:
Helo a chroeso i Oriel Standpoint yn Llundain. Heno, mae gwestai arbennig iawn yn ymuno â mi - artist preswyl presennol Standpoint Futures, sef Thomas Goddard. Fe glywsom ni gyntaf am Thomas pan ffrwydrodd ar y sin fel 'myfyriwr newydd raddio y flwyddyn', datblygodd i fod yn Cerbyd, yna dechreuodd rhai ei alw yn Terry Nutkins y byd celf ar ôl ei brosiectau Teggie - Bwystfil y Bala a The Life, Death and Afterlife of Lizzie the Elephant. Yn fwyaf diweddar mae wedi tramgwyddo'r BBC ac wedi derbyn dyfarniad Cymru Greadigol, sy'n amlwg yn groesddywediad. Rydw i'n falch ei fod yn ymuno â ni heno. Rhowch groeso i Thomas Goddard

[Cymeradwyaeth wan gan y gynulleidfa, cerddoriaeth yn chware]

[Mae'r cyfwelai yn dod i mewn yn gyflym o'r dde i'r llwyfan mewn siaced ledr fflamgoch hyd-canolig gan David Conrad, crys T du, jîns du a threinyrs du (eiddo'r cyngor). Mae'n gwneud tin-dros-ben, sydd heb fod yn un da, yna'n cicio ei goes chwith allan a chlapio ei hun wrth chwildroi. Gan ysgyrnygu fel ci, mae'n mynd ati i daflu arian at y gynulleidfa'n annisgwyl.]

A gadewch imi gychwyn drwy ddweud mor wych yw eich cael chi yma Thomas.

[Mae'r cyfwelai'n tynnu allan bâr o sbectol haul Clubmaster Classic Ray-Ban, yn agor breichiau'r sbectol haul ac yn eu llithro ar ei wyneb yn araf. Mae'n edrych o'i gwmpas fel petai heb sylwi ar y cwestiwn.]

Thomas

The interviewer sits in a black Italian leather chair with constructed wood grain plywood sides. The parquet floor is marked where the heavy leather chair has dug into its surface. A studio audience sit in silence. There are white walls. There is art work. There is a musician behind an electric keyboard.

Interviewer:
Hello and welcome to Standpoint Gallery in London. Tonight, I'm being joined by a very special guest - current Standpoint Futures resident artist Thomas Goddard. We first heard of Thomas when he burst on the scene as new graduate of the year, later he became Cerbyd, then some began to call him the Terry Nutkins of the art world after his Teggie - the Beast of Bala and The Life, Death and Afterlife of Lizzie the Elephant projects. Most recently he has been upsetting the BBC and has received a Creative Wales, clearly a contradiction in terms. I'm pleased to say he joins us tonight. Please welcome Thomas Goddard

[Faint applause from audience, music plays]

[Interviewee enters quickly from stage right dressed in a David Conrad carmine red mid-length leather jacket, black t-shirt, black jeans and black (council property) trainers. He does a somersault, which is less than convincing, then kicks his left leg out and begins clapping himself while pirouetting. Growling like a dog, he proceeds to throw money into the unsuspecting audience.]

And let me start by saying how great it is to have you here Thomas.

[Interviewee takes out a pair of Clubmaster Classic Ray-Ban sun glasses, opens the arms of the sun glasses and slowly glides them onto his face. He looks around as if he hasn't noticed the question.]

Thomas

[Mae'r cyfwelai'n troi at y cyfwelydd, mewn syndod.]

Mi ddyweda' i eto, mae'n fendigedig eich cael chi yma efo ni.

Cyfwelai:
Wrth gwrs, wrth gwrs diolch i chi am fy nghael i. Mae'n wych cael bod yma.

Cyfwelydd:
Felly dywedwch Thomas, fe wnaethoch chi ddechrau ar eich cyfnod preswyl yma, ryw dair wythnos yn ôl, do?

Cyfwelai:
[Yn ddi-hidio]
Falle. Mae'r broses wedi bod yn un ysbeidiol, roedd yna dân...felly allwn i ddim dweud ond tua'r adeg honno. Ie.

Cyfwelydd:
Wela i, ond mi ddechreuoch chi ym mis Mai, do?

Cyfwelai:
Mi gyrhaeddais i yn y gwanwyn, do.

Cyfwelai:
A dyma ni yn yr oriel a'ch gwaith chi o'n cwmpas, felly mi alla' i ddweud eich bod wedi bod yn brysur! Efallai fod hyn yn rhywbeth yn eich natur Thomas, rhyw nodwedd yn eich cymeriad yn tueddu at fod yn obsesiynol. Neu'n orfodol hyn yn oed. Mae'r darn 'If at first you don't succeed...Tour' yn cyfleu hynny rywsut.

[Mae'r cyfwelydd yn amneidio tuag at grys T mawr du yn hongian reit y tu ôl i'r artist.]

Yma rydych chi'n rhestru pob arddangosfa y buoch ynddynt dros y 10 mlynedd diwethaf.

[Saib dramatig]

Oes gennych chi anhwylder gorfodaeth obsesiynol?

Cyfwelai:
Dydw i ddim wedi cael diagnosis o hynny,

[Interviewee turns to interviewer, surprised.]

I said, it's wonderful to have you with us.

Interviewee:
Of course, of course thank you for having me. It's great to be here.

Interviewer:
So tell us Thomas, you started the residency here, what, 3 weeks ago?

Interviewee:
[Nonchalant]
Perhaps. The process has been off and on, there was a fire and...so I couldn't say but around that time. Yes.

Interviewer:
I see, but you started in May is that right?

Interviewee:
I arrived during the springtime yes.

Interviewer:
And we're surrounded here in the gallery by your works, so I can tell you've been busy! Perhaps this is something in your nature Thomas, a character trait leaning towards obsessive. Or even compulsive. The piece 'If at first you don't succeed... Tour' expresses that somehow.

[Interviewer gestures towards an oversized black t-shirt hanging directly behind the artist.]

Here you're listing every exhibition you've been in over the past 10 years.

[Dramatic pause.]

Are you obsessive compulsive?

Interviewee:
I have not been diagnosed no, if that's what you mean?

Interviewer:
I mean that your work inherently displays

naddo, os mai dyna sydd gennych dan sylw?

Cyfwelai:
Rydw i'n golygu bod eich gwaith yn ei hanfod yn dangos arwyddion o ymddygiad obsesiynol. Cerbyd er enghraifft, a chithau'n cysylltu â thros 2,000 o fudiadau cymunedol...

Cyfwelai:
[Yn torri ar draws]

3,000 o fudiadau cymunedol.

Cyfwelydd:
Iawn, beth yw mil rhwng ffrindiau, rhaid ichi gytuno fod hwnnw'n nifer fawr iawn? Yn eich prosiectau rydych yn creu archifau mawr, boed am fwystfilod mytholegol neu ddynwarediadau o ffigwr chwedlonol o Hollywood. Roedd Bulletin, a grëwyd ar gyfer eich cyfnod preswyl gyda BBC Cymru, yn canolbwyntio'n fanwl tu hwnt ar ddarlunio'r newyddion dros gyfnod o 7 diwrnod. A oes wir angen y lefel yma o fanylder? Rwy'n meddwl tybed ai gorbryder cynhenid y tu mewn ichi sydd i'w gyfri am eich natur obsesiynol. Pam ydych chi'n ysu gymaint am sylw?

Cyfwelai:
Dydw i ddim yn ysu am sylw.

Cyfwelydd:
[Yn plygu'n ôl yn hyderus]

Ond rydych chi'n eich cyfweld eich hun, onid ydych?

Cyfwelai:
Dydw i ddim siŵr fy mod yn eich dilyn.

Cyfwelydd:
Mae'n siŵr eich bod yn poeni nad ydych chi'n enwog eto, er yr holl sioeau?

Cyfwelai:
Dyna'ch dehongliad chi. I mi, dim ond rhan o'r hyn rydw i'n ei wneud yw sioe.

Cyfwelydd:
Ydych chi'n meddwl weithiau nad yw'r gwaith caled yn werth y drafferth?

Cyfwelai:
[Wrth chwarae gyda breichiau'i sbectol haul...]

signs of an obsessional behaviour. Take Cerbyd for instance and you contacting over 2,000 community groups...

Interviewee:
[Interrupting]

It was 3,000 community groups.

Interviewer:
Oh yes, right, but regardless give or take a thousand you must agree it's a very large number? In your projects you do create large archives whether they are about mythical beasts or impersonations of a Hollywood legend. **Bulletin** created for your residency at BBC Wales, focussed in minute detail on representing the news over a 7 day period. Is this level of detail really necessary? I wonder whether your obsessional nature is brought on by an innate anxiety within you. Why are you so desperate for attention?

Interviewee:
I am not desperate for attention.

Interviewer:
[Leaning back confidently]

But you are interviewing yourself, are you not?

Interviewee:
I'm not sure I follow.

Interviewer:
It must really bother you that you're not famous yet despite so many shows?

Interviewee:
That is your interpretation. For me a show is only one part of what I do.

Interviewer:
Do you ever wonder if the hard work isn't paying off?

Interviewee:
[While playing with the arms of his sunglasses...]

Everyone works hard, don't they? I am no different than anyone else. We all have to struggle with our disappointments, failures, and rejections as well as striving to fulfil our ambitions. Some

Mae pawb yn gweithio'n galed dydyn? Dydw i'n ddim gwahanol i neb arall. Mae pob un ohonom ni'n gorfod brwydro gyda'n siomedigaethau, ein methiannau, a chael ein gwrthod, yn ogystal ag ymdrechu i gyflawni ein huchelgeisiau. Mae rhai pobl yn lwcus ac eraill ddim, am wn i.

Cyfwelydd:
[Mae'r cyfwelydd yn oedi ac yn edrych ar ei nodiadau. Mae'n gwenu wrtho'i hun cyn mynd yn ei flaen.]

Fel Cymro, mae'n siŵr fod rhyw deimlad o annheilyngdod yn reddfol ynoch, ynghyd â diffyg gallu?

Cyfwelai:
Rydw i'n aml wedi teimlo y bydd rhywun yn ystod fy ngyrfa yn fy nharo'n ysgafn ar fy ysgwydd ac yn dweud na ddylwn i fod yma...

[Mae'r Cyfwelai'n troi ei lygaid oddi wrth y Cyfwelydd, yn hiraethus bron.]

Cyfwelydd:
Mr Goddard, a yw'ch pum munud chi wedi dod i ben?

Cyfwelai:
Pum munud? Onid oes gan bawb hawl i gael ei bymtheg munud yn yr haul?

Cyfwelydd:
Ydych chi'n meddwl na fyddwch chi fyth cystal â'r artistiaid mawr?

Cyfwelai:
Dydw i ddim yn credu mewn artistiaid mawr, dim ond celfyddyd fawr.

Cyfwelydd:
A fyddech chi mor garedig felly ag egluro beth mae celfyddyd fawr yn ei wneud?

Cyfwelai:
Ym...wel... mae celfyddyd fawr yn trawsnewid, am wn i. Mae'n eich newid chi mewn rhyw ffordd.
Cyfwelydd:
Pa rai o'ch gweithiau chi sydd wedi gwneud hyn?

Cyfwelydd:
Ai dim ond cuddio diffyg gallu a deallusrwydd y Cymry y mae'r teimlad ffug

people are lucky and some are not I guess.

Interviewer:
[The interviewer pauses and looks at his notes. He smiles to himself before continuing.]

As a Welshman, you must feel an inherent sense of unworthiness coupled with a lack of ability?

Interviewee:
I have often felt that at some stage in my career someone will tap me on the shoulder and tell me I shouldn't be here...

[Interviewee looks away from the Interviewer, almost nostalgically.]

Interviewer:
Mr. Goddard is your five minutes up?

Interviewee:
Five minutes? Surely everyone's truth is entitled to its own fifteen minutes in the sun.

Interviewer:
Do you wonder if you'll ever be as good as the great artists?

Interviewee:
I don't believe in great artists only great art.

Interviewer:
Please can you clarify what great art does then?

Interviewee:
Erm...er...I suppose great art transforms. It changes you in some way.

Interviewer:
Which of your works has done this?

Interviewee:
...none of them, not yet but I am working on it. I am searching for that idea that I am willing to live and die for.
Interviewer:
Is the false sense of pride and nationalism just a cover for the Welsh's lack of capability and intelligence?

o falchder a chenedlaetholdeb?

Cyfwelai:
Am wn i, sut rydych chi'n credu sy'n bwysig, nid beth rydych chi'n ei gredu.

Cyfwelydd:
Ydych chi erioed wedi gwisgo het cenhinen Bedr?

Cyfwelai:
Un o'r rhai lle rydych chi'n gwthio'ch pen drwy ganol y genhinen Bedr, a'r petalau o gwmpas eich wyneb chi?

Cyfwelydd:
Ie, un o'r rheini.

[Mae'r cyfwelydd yn pwyntio at sgrin lle ymddengys llun o Goddard wedi cael ei 'ffotosiopio' mewn het cenhinen Bedr. Nid yw'r defnydd o 'ffotosiop' yn argyhoeddi.]

Cyfwelai:
Na, dydw i erioed wedi gwisgo un o'r hetiau hynny. Ddrwg gen i.

Cyfwelydd:
Onid celwydd yw'r cwbl beth bynnag, gyda chystadleuaeth mor gryf yn y wlad rhwng dinasoedd cyfagos? Gwlad sy'n llawn casineb at y naill a'r llall yn hytrach na chariad a balchder.

Cyfwelai:
Roeddwn i'n sôn mwy am yr alwad a'r ymateb i dyfu i fyny yng Nghaerdydd. Y pethau a glywch a'r pethau y dewiswch eu credu, sut mae hynny'n troi'n goncrid ein bodolaeth. Rydw i yr hyn ydw i oherwydd Cymru a Chaerdydd. Ac er eu gwaethaf.

Cyfwelydd:
A yw'r ddwy ochr i'ch personoliaeth yn ymladd â'i gilydd am y lle mwyaf blaenllaw?

Cyfwelai:
Yn sicr mae yna frwydr barhaus. Ond weithiau mae yna wthio, weithiau gwrthdaro. Y diwrnod o'r blaen, er enghraifft, roedd yna ffrwgwd tŷ tafarn a drodd yn reiat fawr. Ond oes, yn aml mae yna gystadlu. Ac weithiau gornest rhwng dwy gath.

Interviewee:
I suppose it's not really a matter of what you believe but how you believe it.

Interviewer:
Have you ever worn one of those daffodil hats?

Interviewee:
One of the ones where your face pokes through the middle of the daffodil and the petals are around the outline of your face?

Interviewer:
Yes, one of these.

[The interviewer points to a screen where an image of Goddard Photoshopped into a daffodil hat appears. The use of Photoshop is not convincing.]

Interviewee:
No, I've never worn one of those hats. Sorry.

Interviewer:
Isn't it all a lie anyway with such strong opposition within the country between neighbouring cities? A country full of hate for each other rather than love and pride.

Interviewee:
I was talking more about the call and response of growing up in Cardiff. The things you are told and the things you choose to believe and how that becomes the concrete of our existence. I am who I am because of Wales and Cardiff. And in spite of it.

Interviewer:
Do the two sides of your personality fight with one another for pride of place?

Interviewee:
There is certainly an ongoing battle. However, sometimes it's jostling, other times there are clashes. For instance just the other day there was a bar room brawl that led to a full scale riot. But yes, regularly there is a jockeying for position. Occasionally a cat fight.

Interviewer:
Perhaps this is to do with the worry of

Cyfwelydd:
Falle fod hyn yn gysylltiedig â phryderon eich ochr fenywaidd yn brwydro â'ch ego gwrywaidd?

Cyfwelai:
[Mae'r cyfwelai'n troi oddi wrth y cyfwelydd. Mae ei lais yn ddistaw, fel petai'n siarad ag ef ei hun.]

...byddai fy ego yn ei arddel ei hun yn fenywaidd a dweud y gwir.

Cyfwelydd:
Ydych chi'n gweld bod yna linell denau rhwng cariad a chasineb yn eich perthnasoedd?

Cyfwelai:
Byddwn i'n dweud bod yna raddfa symudol ymhob perthynas ddiddorol.

Cyfwelydd:
Rydych fel petaech chi'n ceisio cael sylw gan eich mam, efallai na wnaeth hi bob amser roi'r hyn oedd hi eisiau ei roi ichi?

Cyfwelai:
A dweud y gwir, mae fy Mam yn o 'nghydweithwyr mwyaf cyson. Roeddwn i yn ei chroth wyddoch chi. Roedden ni'n agos iawn bryd hynny. Wrth dyfu lan, roeddwn yn arfer cymryd rhan yng nghystadlaethau gwisg ffansi yn ffair yr ysgol - un flwyddyn fel Crwban Ninja, dro arall fel dyn Weetabix, ac yn y blaen. Roeddwn i a Mam yn wastad yn cydweithio i ddylunio a gwneud y gwisgoedd, ac mae'r cydweithio hwnnw wedi parhau.

Cyfwelydd:
A beth am eich cyn-wraig?

Cyfwelai:
[Yn ymddangos yn ddiamynedd yn sydyn.]

Beth ydych chi am imi ei ddweud?

Cyfwelydd:
Ymddiheuriadau, a wnes i daro nerf?

[yn gwenu o glust i glust]

Cyfwelai:
[Yn ymdawelu ar unwaith]

your feminine side battling with your masculine ego?

Interviewee:
[The interviewee turns away from the interviewer. His voice is inaudible, as if speaking to himself.]

...my ego would identify as feminine actually.

Interviewer:
Do you find there is a thin line between love and hate in your relationships?

Interviewee:
I would say all interesting relationships have a sliding scale.

Interviewer:
You seem to seek attention from your mother, perhaps she didn't always give you what you wanted?

Interviewee:
In fact, my mother is one of my most consistent collaborators. I was in her womb you know. We were very close then. As a child growing up I used to enter the school fete fancy dress competitions - one year as a Teenage Mutant Ninja Turtle, the other as a Weetabix man and so on and so forth. Me and Mum always worked together designing and making the costumes and that collaboration has continued.

Interviewer:
And how about your ex-wife?

Interviewee:
[Suddenly seeming impatient.]

What do you want me to say?

Interviewer:
I apologise, did I touch a nerve?

[grinning]

Interviewee:
[At once regains his composure.]

Attention is something all humans crave. It's our natural instinct to seek love and protection. When that's deceived it's uncomfortable but inevitably can change

Mae sylw yn rhywbeth y mae pob bod dynol yn dyheu amdano. Mae'n reddf naturiol i geisio cariad ac amddiffyniad. Pan fo hynny'n ffug mae'n annifyr ond mae'n sicr o newid eich cyfeiriad, a'ch helpu i symud ymlaen at brofiadau sydd hyd yn oed yn well.

Mae'n anodd pan fo pobl y tu fas i'r sefyllfa yn gwneud rhagdybiaethau. Mae rhagdybiaethau a stereoteipiau'n plethu drwy'n cymdeithas. Maen nhw'n gallu cyfyngu ar bob un ohonom, a'n camliwio mewn ffordd sydd y tu hwnt i'n gafael.

Cyfwelydd:
Sut mae eich bywyd yn cael ei gamliwio yn eich barn chi?

Cyfwelai:
Rydw i'n ceisio peidio â phoeni am y ffordd rydw i'n cael fy nehongli, mae'n ddi-fudd.

[Mae'r cyfwelai'n cau ei lygaid ac yn ysgwyd ei ben yn araf bach o'r naill ochr i'r llall]

Daeth Marlon Brando ataf mewn breuddwyd un tro a dweud...buom yn cerdded gyda'n gilydd am oriau, Brando a minnau... daethom at lecyn agored a gofynnodd imi eistedd, daliodd fy wyneb yn y dwylo mawr siâp trywel a oedd ganddo ac edrychodd i fyw fy llygaid a dweud y geiriau -
"Does wir ddim ots gen i"
Cyfwelydd:
Ydych chi'n teimlo y byddech chi'n hoffi rheoli'r cyfryngau yn hytrach na'u bod nhw yn eich rheoli chi?

Cyfwelai:
Rydw i'n meddwl po fwyaf y dysgwn ni po fwyaf rhyfeddol y byddwn i. Rydw i'n hoffi rheoli, ond dymchwel y cyfryngau yw'r gamp.

Cyfwelydd:
Beth sy'n eich poeni chi - eu bod nhw'n darganfod rhywbeth amdanoch chi?

Cyfwelai:
Yr hyn sy'n fy mhoeni ar hyn o bryd yw'r trawsgrifiad o'r cyfweliad yma.
Cyfwelydd:
Oes gennych chi ddiddordeb mewn pynciau di-chwaeth oherwydd eich bod yn dyheu your direction, and help you progress into even greater experiences.
It's difficult when those outside a situation make assumptions. Assumptions and stereotypes intertwine through our society. They have the ability to restrict us all, and misrepresent us in a way that is out of our grasp.

Interviewer:
How do you feel your life is misrepresented?

Interviewee:
I try not to worry about the way I am interpreted, it's unhelpful.

[The interviewee closes eyes and shakes head ever so slowly from side to side]

Marlon Brando once came to me in a dream and said...we were walking for hours together Brando and I...we came to a clearing and he sat me down, held my face in those large trowel shaped hands of his and looking into my eyes he softly spoke the words -

"I just don't care"

Interviewer:
Do you feel you'd like to control the media rather than them control you?

Interviewee:
I think that the more we learn the more mysterious we become. I do like control but toppling the media is the game.

Interviewer:
What are you worried about - that they'll find something out about you?

Interviewee:
My main current worry is about the transcript of this interview.

Interviewer:
Do you have an interest in sick subjects because you secretly desire them?

Interviewee:
My desires are simple rather than sick.

amdanynt yn dawel fach?
Cyfwelai:
Syml yn hytrach na di-chwaeth yw fy nyheadau i.

Cyfwelydd:
Sut ydych chi'n dychmygu y bydd eich gwaith yn cael ei werthfawrogi yn y dyfodol?

Cyfwelai:
Y genhedlaeth nesaf fydd yn gwir werthfawrogi fy ngwaith.

Cyfwelydd:
Oes yna unrhyw gwestiwn yr hoffech i mi fod wedi ei ofyn ichi?

Cyfwelai:
Hoffwn eich llongyfarch chi ar eich crys lliw glas yr d. Mae'n neis iawn. Ac yn eich ffitio'n dda.

Cyfwelydd:
Diolch. Ond oes yna rywbeth yr hoffech imi fod wedi ei ofyn ichi?

Cyfwelai:
Beth yw'r gwirionedd?

[Mae dwy ferch yn rhedeg i mewn yn sgrechian fod yna dân. Mae popeth yn mynd yn ddu]

Interviewer:
How do you imagine your work will be valued in the future?

Interviewee:
The generation who will really appreciate my work is the next one.

Interviewer:
Is there any question you would have liked me to ask you?

Interviewee:
I'd like to compliment you on your cornflower blue shirt. It's very nice. It fits you well.

Interviewer:
Thank you. But is there something you would have liked me to have asked you?

Interviewee:
What is truth?

[Two girls run in screaming that there is a fire. Everything goes black]

•

Holl weithiau gan / All works by Thomas Goddard
——

Another Dress Rehearsal
Collage, 2015

Still from **Be More Brando**
Film, 2015

Still from **Impression of a Woman Figure**
Film, 2015

Hand of Jimmy Savile
C-type print, 2015

Still from The **Impression of a Woman Figure**
Film, 2015

Still from **Macho**
Film, 2015

——
Mae nifer cyfyngedig o brintiau ar gael a gallwch eu prynu yn y siop/Limited edition prints are available from the shop

•

Esgyn / Uprisings
Cynhyrchir y cyhoeddiad hwn i gydfynd ag arddangosfa Esgyn gan **Thomas Goddard** fel rhan o raglen Oriel 6.

MOSTYN, 18 Gorffenaf – 08 Tachwedd 2015

Ysgogwyd a churadwyd Oriel 6 a'i rhaglen Esgyn gan: Adam Carr, Curadur Rhaglen Celfyddydau Gweledol MOSTYN.
——
Mae Esgyn yn rhoi arddangosfeydd unigol i artistiaid ifanc ac egin artistiaid sydd heb eto gael arddangosfa unigol mewn sefydliad, naill ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol. Mae'n galluogi'r artist i weithio dan amodau proffesiynol a chyflwyno eu gwaith i gynulleidfa ehangach.

Mae Esgyn yn bosib diolch i gefnogaeth hael: Sefydliad Esmée Fairbarn.
——
Mae cofnod catalog o'r llyfr hwn ar gael gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Llyfrgell Brydeinig.
Cyhoeddiad ℗ 2015 MOSTYN a'r awduron.
——
Cyfieithu: Cymen
Dylunio: Elfen.co.uk

•

This publication has been produced to accompany the Uprisings exhibition by **Thomas Goddard**, as part of Gallery 6's programme.

MOSTYN, 18 July – 08 November 2015

Gallery 6 and its programme Uprisings has been initiated and curated by:Alfredo Cramerotti, Director, MOSTYN
——
Uprisings gives solo exhibitions to young and emerging artists who are yet to receive a solo exhibition in an institution setting, either nationally or internationally. It allows artists to work under professional conditions and present their work to a larger audience.

Uprisings has been made possible by the generous support of: Esmée Fairbairn Foundation.
——
A catalogue record for this book is available from the National Library of Wales and the British Library. Texts and images © 2015 MOSTYN and the authors.
——
Translation: Cymen
Design: Elfen.co.uk